Gweinyddiaeth Cyfiawnder

## Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 73 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O'r rhain, cafwyd y prif grŵp o ymatebion (tua chwarter) oddi wrth gynrychiolwyr o'r diwydiant yswiriant. Derbyniwyd tua'r un nifer o ymatebion oddi wrth gyfreithwyr yr hawlwyr a'r diffynyddion, sefydliadau ariannol a chyfrifeg, yn ogystal ag ymarferwyr a chyrff cyfreithiol cyffredinol. Cafwyd ymatebion eraill oddi wrth sefydliadau diffynyddion, elusennau, cyrff barnwrol, a'r cyhoedd.

Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi o ran eu safbwyntiau ar y fethodoleg y dylai'r Arglwydd Ganghellor ei defnyddio wrth bennu'r cyfraddau gostyngol, ac yng nghyswllt amryw o faterion technegol mewn perthynas â'r ymarfer y gofynnir am farn pobl arno.

Mynegwyd sawl barn amrywiol iawn gan wahanol grwpiau buddiant ac, ar y cyfan, dangosodd yr ymatebion nad oedd cytundeb ynghylch pa fethodoleg y dylid ei defnyddio wrth bennu'r gyfradd na pha ystyriaethau technegol y dylid eu cymhwyso i'r broses honno.

## Casgliad a'r camau nesaf

Gan nad oedd modd dod i gytundeb ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd (y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS) benodi panel arbenigol i roi cyngor iddo ar beth ddylai'r gyfradd ostyngol fod o dan y gyfraith bresennol a sut y dylid ei chyfrifo. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael i'r panel arbenigol yng nghyd-destun y gwaith hwnnw, ar yr amod bod darpariaethau cyfrinachedd priodol yn cael eu gweithredu.

Dechreuodd y panel arbenigol ystyried y mater ym mis Mawrth 2015 ac adroddodd yn ôl ym mis Hydref 2015 yn ogystal â darparu eglurhad pellach ar nifer o faterion ym mis Ionawr 2016. Esgorodd yr adroddiad hwn ar ragor o waith dadansoddi er mwyn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â beth ddylai'r gyfradd fod.